Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? Darllenwch ef yn eich porwr.

# bwletin
## gweinyddiaeth etholiadol




Rhifyn 327 (Cymru) - 2 Awst 2022

## Cynlluniau peilot pleidleisio cynnar: adroddiad gwerthuso

Heddiw rydym wedi cyhoeddi ein hadroddiad gwerthuso statudol ar gynlluniau peilot pleidleisio cynnar etholiadau lleol Mai 2022 yng Nghymru.

Treialwyd pleidleisio cynnar mewn pedwar awdurdod lleol fel rhan o fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer moderneiddio etholiadol. Cynhaliwyd cynlluniau peilot ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Blaenau Gwent, Caerffili a Thorfaen mewn amrywiaeth o leoliadau ac amseroedd yn yr wythnos cyn y diwrnod pleidleisio ar ddydd Iau 5 Mai.

Cafodd y cynlluniau peilot eu cynnal yn dda gan Swyddogion Canlyniadau. Doedd dim problemau nodedig ar y diwrnodau pleidleisio ymlaen llaw nac ar ddydd Iau 5 Mai ac roedd pleidleiswyr yn fodlon gyda'i profiad o bleidleisio. Fodd bynnag, mae'r canlyniadau'n dangos nad yw'r cyfle i bleidleisio'n bersonol cyn y diwrnod pleidleisio, ar ei ben ei hun, yn rhoi hwb sylweddol i'r nifer sy'n pleidleisio. Nid yw hyn yn annisgwyl; gwyddom fod cymhelliad pobl i bleidleisio neu beidio â phleidleisio yn cael ei ysgogi gan sawl ffactor ac nad yw'n gysylltiedig â chyfleustra neu ddewis dull yn unig.

Ni allwn benderfynu, o dystiolaeth y cynlluniau peilot, pa effaith tymor hir y byddai pleidleisio ymlaen llaw, pe bai'n cael ei chyflwyno, yn ei chael ar y nifer sy'n pleidleisio. Mae profiad y cynlluniau peilot yn rhoi rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol am sut y gallai pleidleisio ymlaen llaw weithio, er bod y nifer fach o gynlluniau peilot yn golygu bod gwaith i'w wneud o hyd i ddatblygu polisi yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad y dylai unrhyw newidiadau arfaethedig i brosesau pleidleisio gael eu dylunio i sicrhau budd tebygol i bleidleiswyr, cynnal diogelwch a chywirdeb y system, a bod yn realistig i weinyddwyr etholiadol eu cyflawni. Mae ein gwerthusiad wedi nodi sawl maes penodol y mae angen mynd i'r afael â hwy os ystyrir cyflwyno pleidleisio ymlaen llaw ymhellach, gan gynnwys lleoliad, nifer a dewis o ddiwrnodau pleidleisio ymlaen

Y Comisiwn Etholiadol

## Cynnwys


**Cynlluniau peilot pleidleisio cynnar: adroddiad gwerthuso**

Gwybodaeth a dolen i adroddiad gwerthuso statudol y Comisiwn ar y cynlluniau peilot pleidleisio cynnar a gynhaliwyd mewn rhannau o Gymru yn ystod etholiadau Mai 2022.

**Deddf Etholiadau: gweithredu**

Diweddariad ar gynlluniau ar gyfer gweithredu newidiadau a gyflwynwyd gan y Ddeddf Etholiadau.


**Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol, a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol Bwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael fan hyn. Gallwch hefyd danysgrifio i'n Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.**

**Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.**

**Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk**

**Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf**

llaw, costau, codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a sicrhau gwydnwch timau gweinyddu etholiadol.

## Deddf Etholiadau: gweithredu

Mae'r Adran dros Lefelu i Fyny, Tai a Chymunedau (DLUHC) wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf drwy ei Rhwydwaith Newid Busnes ar benderfyniadau diweddar gan Weinidogion yn ymwneud â gweithredu'r mesurau ID pleidleiswyr yn y Ddeddf Etholiadau. Mae DLUHC wedi cadarnhau eu bwriad y bydd y mesurau yn berthnasol i bob etholiad perthnasol o fis Mai 2023, ac y bydd y broses ymgeisio ar gyfer cael prawf adnabod pleidleisiwr yn fyw ym mis Ionawr 2023.

Rydym yn deall ac yn rhannu'r pryderon sydd gan lawer ar draws y gymuned etholiadol ynghylch yr amserlen weithredu o ystyried yr oedi i'r is-ddeddfwriaeth a'r diffyg eglurder a ddaw yn sgil hyn. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi gweithrediad effeithiol y darpariaethau cerdyn adnabod pleidleiswyr, ond mae'n parhau i fod yn hanfodol eu bod yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n sicrhau hygyrchedd, diogelwch ac ymarferoldeb. Rydym wedi codi ein pryderon gyda swyddogion a gweinidogion, ac wedi gofyn am gyfarfod brys gyda'r Ysgrifennydd Gwladol.

Rydym yn parhau i ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer sut y byddwn yn eich cefnogi i baratoi ar gyfer y newidiadau a'u cyflawni, ond rydym yn dal i aros am yr amseriadau manwl ar gyfer a chynnwys yr is-ddeddfwriaeth gan DLUHC y mae angen i ni allu cadarnhau'r hyn y gallwn ei ddarparu ar eich cyfer chi a phryd. Byddwn yn eich diweddaru cyn gynted â phosibl.

Yn y cyfamser, rydym yn gweithio i ddatblygu rhai canllawiau cychwynnol i dynnu sylw at feysydd cynllunio allweddol y gallwch ddechrau bwrw ymlaen â hwy nawr, hyd yn oed yn absenoldeb y manylion ynghylch sut y bydd y darpariaethau'n gweithredu'n ymarferol. Er nad oes unrhyw etholiadau wedi'u hamserlennu yng Nghymru ym mis Mai 2023, bydd hyn yn dal i'ch cefnogi i wneud paratoadau cynnar fel eich bod yn barod ar gyfer yr etholiadau cyntaf – wedi'u hamserlennu neu heb eu trefnu – lle bydd y darpariaethau newydd hyn yn berthnasol yn eich ardal chi. Disgwyliwn i'r arweiniad hwn fod ar gael i chi yn ddiweddarach y mis hwn.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

**www.electoralcommission.org.uk**
© Y Comisiwn Etholiadol 2022

**Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)**

**Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddat-danysgrifio unrhyw bryd.**